



DAETH y syrzas i'r dref, gan ddod â diwrnod llawn hwyl i ymwelwyr â'r Rhyl.

Trefnwyd triciau ac adloniant gan Gyngor Tref y Rhyl fel rhan o'u digwyddiad cymunedol am ddim Sadwrn y Syrzas.

O feistr y cylch ar ystudfachau i sgiliau hud a lledrith a'r syrzas, roedd rhywbeth i bob oedran ar y Stryd Fawr. Ymhlith yr uchafbwyntiau roedd ymddangosiad gan fand drymio Bloco Sŵn a'u pyped parot anferth a oedd yn hedfan uwchben yr ymwelwyr.

Roedd Sioe Pwnsh a Jwdi, sesiynau hoola hoop, cylchfeistr syrzas ar ystudfachau, dychanwr a gemau traddodiadol yn rhan o'r hyn a oedd ar gael.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard: "Daeth Sadwrn y Syrzas â sioe wych i Stryd Fawr y Rhyl gyda gweithgareddau i bobl o bob oedran. Mae ein digwyddiadau cymunedol am ddim wastad yn cael derbyniad da ac nid oedd hwn yn eithriad.

"Roedd yn wych gweld teuluoedd yn mwynhau hwyl hen ffasiwn gyda'i gilydd, yn dysgu sgiliau newydd, rhoi cynnig ar y gweithgareddau a mwynhau'r adloniant gan y band drymio Bloco Sŵn."

Mae'r digwyddiad undydd yn arwain y ffordd at wythnosau prysur o weithgareddau, gydag Awst yn cynrychioli mis gwych o wahanol wyliau yn y Rhyl.



Ynghyd â rhedeg ei ddigwyddiadau cymunedol ei hun, mae'r cyngor tref yn cefnogi sioe awyr flynyddol Cyngor Sir Ddinbych a'r wyl gerdd Summer Soul.

“Rydym yn gweld mwy a mwy o bobl yn ymweld â'r Rhyl ac mae llawer o bethau i'w gweld, eu gwneud a'u profi. Mae gan y dref nawr galendr hynod o ddigwyddiadau ac rydym yn edrych ymlaen at haf prysur arall o'n blaenau,” ychwanegodd y Cyngorydd Chard.

Diwedd

